CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
SEREMONI SEFYDLU'R MAER
CYNHALIWYD AR 24 MEHEFIN 2022

Llywyddwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Caerfyrddin, ddydd Gwener 24 Mehefin 2022, am 6.30 pm, gan y Maer, y Cynghorydd Gareth John.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Heledd ap Gwynfor, Tom Defis, Dai Evans, Peter Hughes Griffiths, Angharad Jones Leefe, Gareth John, Andy King, Arwel Lloyd, Ioan Matthews, Miriam Moules, Jeff Thomas, Wyn Thomas a Barry Williams.

66. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Marc Ingram, Alun Lenny, Emlyn Schiavone a Russell Sparks.

67. Anogaeth Agoriadol

Agorwyd y gweithrediadau gyda gweddi gan y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths ar ran Caplan y Maer oedd yn ymddeol, y Parchedig Beti-Wyn James.

68. Anerchiad y Maer sy'n Ymddeol

Croesawodd y Maer oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Gareth John bawb i'r seremoni gan nodi ei bod yn anrhydedd eistedd yn y gadair yn gwisgo'r gadwyn yn adeilad hanesyddol y Neuadd Sirol. Myfyriodd y Cyng. John ar ei ddwy flynedd fel Maer, yn ystod y pandemig a heriau eraill lle'r oedd y dref wedi ymateb a goresgyn yr anawsterau a wynebwyd gan bawb, gan nodi y bydd y dref yn parhau i addasu a newid yn wyneb y brwydrau presennol. Mynegodd y Cyng. John ei ddiolch i'r dwsinau o grwpiau cymorth cymunedol a oedd wedi helpu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan amlygu gwaith y banc bwyd, Byddin yr Iachawdwriaeth, a Ford Gron Caerfyrddin. Nododd y Maer oedd yn ymddeol werthfawrogiad newydd o rôl ganolog y Cyngor Tref wrth fynd ati'n rhagweithiol i ddefnyddio cysylltiadau i ddod â phobl at ei gilydd at achos cyffredin. Siaradodd y Cyng. John am ddigwyddiadau gwych a gynhaliwyd wrth i'r dref ddod allan o'r pandemig. Talodd deyrnged hefyd i Glerc y Dref, Mr. Alun Harries a oedd wedi cyhoeddi ei ymddeoliad yn ddiweddar. Diolchwyd i Mr Harries am ei waith dros y saith mlynedd diwethaf a chyflwynwyd iddo blac y Cyngor Tref.

69. Ethol Maer Tref Caerfyrddin am 2022/23 a'r Datganiad o Dderbyn Swydd.

Ar gynnig y Cyng. Angharad Jones Leefe, eiliwyd gan y Cyng. Ioan Matthews, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol, ethol y Cynghorydd Miriam Moules yn Faer Tref Caerfyrddin am y flwyddyn 2022/2023.

Darllenodd ac arwyddodd y Maer newydd, Cyng. Miriam Moules y datganiad o dderbyn y swydd. Arwisgodd y Maer newydd gyda'i chadwyn o swydd gan y Cyng. Gareth John.

Y Cyng. Miriam Moules, yn llywyddu.

Gwnaeth y Cyng. Miriam Moules adrodd ac arwyddo Llw y Morlys.

Diolchodd y Cyng Miriam Moules i'r holl Aelodau am eu hymddiriedaeth ynddi a pharhaodd i amlinellu'n gryno rai o'r amcanion oedd ganddi ar gyfer ei blwyddyn fel Maer.

Penododd y Cyng Miriam Moules y Parchedig Lorette J Hinson, Gweinidog Eglwys Fethodistaidd Wesle Caerfyrddin, yn Gaplan y Maer.

Penododd y Cyng, Moules Huw Garan yn gymar iddi. Arwisgodd y Faeres oedd yn ymddeol, Mrs Claire John, y cymar newydd â'i gadwyn.

70. Ethol Dirprwy Faer ar gyfer 2022/23 a'r Datgniad o Dderbyn Swydd.

Ar gynnig y Cyng. Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Tom Defis, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cyng. Wyn Thomas yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2022/23.

Darllenodd ac arwyddodd y Cyng. Wyn Thomas y datganiad o dderbyn y swydd.

Gwaneth y Maer, y Cyng. Miriam Moules arwisgo'r Cyng. Wyn Thomas gyda chadwyn y swydd.

71. Ethol Siryf y Dref ar gyfer 2022/23 a Datganiad o Dderbyn Swydd.

Ar gynnig y Cyng. Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Jeff Thomas, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol bod y Cyng. Emlyn Schiavone yn cael ei benodi yn Siryf y Dref ar gyfer 2022/23.

Roedd y Cyng. Emlyn Schiavone yn absennol o'r cyfarfod oherwydd salwch. Anfonwyd dymuniadau gorau at y Cyng. Schiavone am wellhad buan.

72. Pleidlais o Ddiolch i'r Maer sy'n Ymddeol

Ar gynnig y Cynghorydd Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas, **PENDERFYNWYD** diolch i'r Maer oedd yn ymddeol, y Cyng. Gareth John, am ei gyflawniadau fel Maer yn ystod y flwyddyn.

73. Sul y Maer

Diolchodd y Maer i bawb am fynychu a chyhoeddodd y byddai ei Gwasanaeth Dinesig yn cael ei gynnal ar ddydd Sul 26 Mehefin am 10.30 yn Eglwys Fethodistaidd Wesle.

74. Gweddi i Gloi.

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parchedig Lorette J Hinson, Caplan y Maer

Caewyd y cyfarfod am 19.17